This document is available in English

Polisi Corfforaethol-09

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru parthed

Lleihau Risg

(Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol: PSTC Darparu Gwasanaethau)

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod taw un o'i brif swyddogaethau a'i ddyletswyddau statudol yw cyflawni ei rôl wrth atal, addysgu a chyfathrebu â'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r dyletswyddau statudol hyn yn cynnwys:

- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004
- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
- Y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cydnabod bod ganddo rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi gwahanol amcanion strategol y Llywodraeth gyda'r bwriad o ennill canlyniadau gwell i'n cymunedau.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws holl feysydd ei fusnes:

Atal

- I leihau nifer pob math o ddigwyddiadau argyfwng a'u canlyniadau
- I gynorthwyo i adeiladu cymunedau cryfach, iachach a mwy cynaliadwy
- I dargedu gweithgareddau atal yn unol â phroffiliau risg
- I ymgysylltu â chymunedau
- I eithafu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy bartneriaethau a chydweithrediad
- Gweithgaredd lleihau risg a hysbyswyd ac a dargedwyd sy'n seiliedig ar ddata ansoddol a meintiol a chudd-wybodaeth, gan gynnwys yr absenoldeb ohono, i sicrhau yr ymgysylltir â phob cymuned parthed gwaith ataliol

Amddiffyn

- I sicrhau cydymffurfiaeth gyhoeddus â deddfwriaeth berthnasol drwy fodd rhaglenni arolygu sy'n seiliedig ar risg
- I ddarparu tystiolaeth a chymorth i erlyniadau arfaethedig
- I ddylanwadu a datblygu polisi diogelwch tân a chyfarwyddyd mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill
- I ymchwilio i ddigwyddiadau fel bo'n briodol

Llofnodwyd:..... Dyddiad: 01/12/2015

PSTC Darparu Gwasanaethau